Cofnodion cryno – Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:

Ystafell Bwyllgora 2 – Y Senedd

Dyddiad: Dydd Mercher, 3 Gorffennaf 2019

Amser: 09.01 – 10.55

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/5500

Yn bresennol

Categori	Enwau
Aelodau'r Cynulliad:	Rhun ap Iorwerth AC Alun Davies AC Mick Antoniw AC (yn lle Mike Hedges AC) Rhianon Passmore AC Nick Ramsay AC Mark Reckless AC
Tystion:	Vaughan Gething AC, Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Sioned Rees, Llywodraeth Cymru Rhian Williams, Llywodraeth Cymru
Staff y Pwyllgor:	Bethan Davies (Clerc) Leanne Hatcher (Ail Glerc) Samantha Williams (Dirprwy Glerc) Joanne McCarthy (Ymchwilydd) Owen Holzinger (Ymchwilydd)

1 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2020-21: Dull o gynnal gwaith craffu

1.1 Trafododd y Pwyllgor y dull o gynnal gwaith craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020-21.

2 Cyllideb Atodol Gyntaf Llywodraeth Cymru 2019-20: Trafod yr adroddiad drafft

2.1 Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad drafft.

3 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

3.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan Llyr Gruffydd a Mike Hedges. Dirprwyodd Mick Antoniw ar ran Mike Hedges. Ymunodd Rhun ap Iorwerth â'r cyfarfod trwy Skype.

4 Papurau i'w nodi

4.1 Cafodd y papurau eu nodi.

4.1 PTN1 - Llythyr at y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd - Diwygio Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrff Dynodedig) 2018 - 27 Mehefin 2019

4.2 PTN2 - Llythyr at y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd at Suzy Davies AC - Diwygio Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrff Dynodedig) 2018 - 27 Mehefin 2019

5 Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru): Sesiwn dystiolaeth

5.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru).

6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

6.1 Cafodd y cynnig ei gymeradwyo.

7 Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru): Trafod y dystiolaeth

7.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

8 Craffu ar Gyllideb Ddrafft Comisiwn y Cynulliad ar gyfer 2019-20: Cynllun Diswyddo Gwirfoddol

8.1 Trafododd y Pwyllgor y llythyr a gafwyd ynghylch y Cynllun Diswyddo Gwirfoddol.

9 Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru): Trafod yr adroddiad drafft

9.1 Cymeradwyodd y Pwyllgor y newidiadau i'r adroddiad drafft ar Fil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru).

10 Y Cod Ymarfer sy'n llywodraethu'r berthynas rhwng Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru

10.1 Cytunodd y Pwyllgor i ohirio'r eitem hon tan 11 Gorffennaf 2019.